Mae cynllun Grantiau Bach – Amgylchedd yn rhaglen o waith cyfalaf sydd ar gael i fusnesau ffermio ar draws Cymru er mwyn cynnal prosiectau fydd yn helpu i wella a chynnal nodweddion tirweddau traddodiadol a chysylltu cynefinoedd er lles pryfed peillio.

Bydd eitemau Gwaith Cyfalaf yn cael eu rhannu'n 'Brif' Waith a Gwaith 'Ategol'. Gyda'i gilydd, maen nhw'n ffurfio 'Prosiect'.

Bydd prosiect yn cynnwys:

- Y Prif Waith Cyfalaf, i fynd i'r afael ag amcanion y thema
- Y Gwaith Cyfalaf Ategol sy'n ei gwneud yn bosib cynnal y Prif Waith Cyfalaf e.e. Plannu Perth/Gwrych ar gyfer Pryfed Peillio (opsiwn 922), yw'r Prif Waith Cyfalaf ond byddai codi ffens postyn a weiren (opsiwn 594) i ddiogelu'r berth rhag difrod yn Waith Cyfalaf Ategol Gorfodol, a byddai Gatiau Pren Caled (opsiwn 599) yn Waith Cyfalaf Ategol Opsiynol.
- Pryfed Peillio (opsiwn 922) yw'r Prif Waith Cyfalaf, tra byddai Ffensio Pyst a Gwifren (opsiwn 594) i ddiogelu'r berth newydd rhag difrod, yn Waith Cyfalaf Cefnogol Gorfodol, a byddai Giatiau Caeau Pren Caled (opsiwn 599) yn Waith Cyfalaf Cefnogol Dewisol.

Mae'r Thema Tirwedd a Phryfed Peillio yn cynnig Prosiectau Gwaith Cyfalaf sydd wedi'u dewis am eu bod yn dod â budd eang a chyffredinol i'r amgylchedd ac am eu bod yn helpu i wireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i gynnal nodweddion traddodiadol y dirwedd ac yn cysylltu cynefinoedd er lles pryfed peillio.

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG45727 ISBN digidol: **978-1-80364-626-8**
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.

# Cynnwys


Prif Waith Cyfalaf ........ 6
E610 Coed – Hirgyff (Dim Ffensio) ........ 6
E611 Coed a Llwyni – Trawsblannu ........ 8
E612 - Coed a Llwyni – Coed Chwip ........ 12
E646 Plannu Llafnau ........ 15
E901 Bondocio Perthi/Gwrychoedd a Chau Bylchau ........ 17
E902 Plygu Perth/Gwrych ........ 19
E914Adfer Pwll ........ 21
E922 Plannu Perth/Gwrych Newydd ar Gyfer Pryfed Peillio ........ 23
E923 Adfer Wal Gerrig Sych ........ 25
E924 Adfer Clawdd ........ 27
E925 Adfer Clawdd Cerrig ........ 29
E926 Adfer Ffens Lechi Adfer ........ 31
E929 Coed Ffrwythau a Phostyn a Giard ........ 32
Gwaith Cyfalaf Ategol ........ 34
E514 Camfa Ysgol ........ 34
E516 Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren ........ 35
E517 Cilbyst a Gât Mochyn o Bren ........ 36
E519 Camfa Bren ........ 38
E533 Gât Mochyn Daear ........ 39
E563 Pibelli Cyflenwi Dŵr ........ 40
E573 Gât Ddŵr ........ 41
E574 Cafnau Dŵr ........ 43
E593 Ffens Postyn a Rheilen ........ 44
E594 Ffens Postyn a Weiren ........ 45
E595 Ffens Postyn a Weiar gyda Netin Stoc ........ 46
E596 Ffensys Cwningod ........ 48
E599 Gatiau Caeau (Pren Caled) ........ 50
E600 Gatiau Caeau (Pren Meddal) ........ 51
E604 Giardiau Rhag Stoc ar Goed Parcdir ........ 51
E608 Cysgod Coed (60cm gyda Phostyn) ........ 54
E647 Llewys Coed Rhag Cwningod ........ 54
E905 Rheoli Mieri/Prysg – Chwistrellydd Cefn neu Law ........ 55
E920 Rheoli Rhedyn (Dau Doriad y Flwyddyn â Pheiriant) ........ 55

Bydd Prosiect Grantiau Bach – Amgylchedd yn cynnwys un Prif Waith Cyfalaf gydag un neu fwy o eitemau Gwaith Cyfalaf Ategol i'w gefnogi. Sylwch: Gall Gwaith Cyfalaf Ategol fod yn orfodol, yn opsiynol neu heb fod ar gael, gan ddibynnu pa Brif Waith Cyfalaf y mae'n ei gefnogi o fewn y Prosiect hwnnw.

**Gweler y tabl isod:**

| | | Gwaith Cyfalaf Ategol | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cod | E514 | E516 | E517 | E519 | E533 | E563 | E573 | E574 | E593 | E594 | E931 | E932 | E599 | E600 | E604 | E608 | E647 | E905 | E933 | E924 | E925 | E928 |
| Cod | Teitl | Camfa Ysgol | Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren | Cilbyst a Gât Mochyn o Bren | Camfa Bren | Gât Mochyn Daear | Pibelli Cyflenwi Dŵr | Gât Dŵr | Cafnau Dŵr | Ffens Postyn a Rheilen | Ffens Postyn a Weiren * | Ffens Postyn a Weiren a Netin Stoc* | Ffensys Cwningod | Gatiau Caeau (Pren Caled) | Gatiau Caeau (Pren Meddal) | Giardiau rhag Stoc ar Goed Parcdir | Cysgod Coed (60cm gyda Phostyn)# | Llewys Coed rhag Cwningod # | Rheoli Mieri/ Prysg – Chwistrellydd Cefn | Rheoli Rhedyn (â Pheiriant) | Adfer cloddiau | Adfer Cloddiau Cerrig | Weiren ar ben Wal Gerrig |
| E610 | Coed – Hirgyff (dim ffens) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| E611 | Coed a Llwyni – Trawsblannu | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| E612 | Coed a Pherthi – Coed Chwip | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 1 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| E646 | Plannu Llafnau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| E901 | Bondondio Perthi/ Gwrychoedd a Chau Bylchau | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 | 0 | 2 | 2 | 2 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| E902 | Plygu Perth/ Gwrych | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| E914 | Adfer Pwll | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 2 | 1 | 1 | 1 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| E922 | Plannu Perthi Newydd ar gyfer Pryfed Peillio | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 | 0 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 |
| E923 | Adfer Waliau Cerrig Sych | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| E924 | Adfer Cloddiau | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| E925 | Adfer Cloddiau Cerrig | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| E926 | Adfer Ffensys Llechi | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| E929 | Coed Ffrwythau a Phostyn a Giard | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |

Prif Waith Cyfalaf

*Dewiswch un eitem o waith cyfalaf gorfodol o blith y tri dewis ffensio

# Dewiswch un eitem o waith cyfalaf gorfodol o blith y tri dewis amddiffyn coed

D

n/a 0

1 gorfodol 2 opsiynol

Dewiswch rywogaethau brodorol sy'n tyfu'n dda mewn perthi lleol gan y byddant yn cyfrannu at harddu'r dirwedd a chynyddu gwerth y berth i fywyd gwyllt.
- Gallwch ddefnyddio llewys coed i amddiffyn y berth rhag cwningod, er mewn rhai ardaloedd, byddai ffens gwningod yn fwy defnyddiol.

## E923 Adfer Wal Gerrig Sych

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Adfer Wal Gerrig Sych'. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Mae waliau cerrig yn nodweddion pwysig o'r dirwedd sy'n gallu bod yn gofnod hanesyddol pwysig o'r modd y mae'r tir wedi cael ei ddefnyddio. Maen nhw'n bwysig hefyd i fioamrywiaeth ac fel cysgod i stoc. Ni fydd pob wal gerrig yn dilyn llinell syth, ffactor sy'n cyfrannu at ei phwysigrwydd hanesyddol a thirweddol. Mae cael eu taro gan gerbydau, eu dwyn gan ladron a'u rhwbio gan anifeiliaid i gyd yn gallu difrodi walydd.

**Rhaid cadw at y canlynol:**

- Adfer wal gerrig sych sy'n dadfeilio fel bod uchder a llinell y wal yn adlewyrchu uchder a llinell y wal sy'n weddill. Gweler canllawiau isod ar sut i ddilyn yr arferion gorau wrth adfer wal gerrig sych:
- Rhaid i'r holl gerrig a ddefnyddir i adfer waliau cerrig sych fod yn debyg i'r rheini sydd yn y wal sy'n weddill.
- Cadwch a/neu ailgodwch bob camfa garreg, cwter ddefaid, cwlfert a nodwedd traddodiadol arall.
- Rhaid ichi fynd ag unrhyw gerrig sydd dros ben ar ôl adeiladu'r wal o'r safle ac adfer y tir o gwmpas i'r hyn ydoedd cyn dechrau.

**Gofynion a chyngor, yn ychwanegol at yr uchod:**

- Lle bo gweithgareddau Grantiau Bach – Amgylchedd yn gofyn am osod celfi mynediad fel camfeydd neu gatiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn cael caniatâd angenrheidiol yr awdurdod priffyrdd dan sylw o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980.
- Defnyddiwch y garreg leol os medrwch ond peidiwch â dwyn cerrig o fannau anaddas fel adfeilion neu waliau eraill. Os ydych yn mewnforio cerrig o ardal arall, gofalwch eu bod yn dod o'r ardal honno.
- Penderfynwch a ydych am roi weiren ar frig y wal cyn dechrau adfer y wal.
- **Sylfeini** – yr haenen gyntaf o gerrig mawr wrth droed y wal. Dylai'r sylfeini gynnwys dwy res o'r cerrig mwyaf y medrwch gael gafael arnyn nhw wedi'u gosod mewn ffos 15cm i 30cm o ddyfnder. Ar dir meddal iawn, bydd angen sylfeini dyfnach. Dylech lenwi'r bwlch rhwng y ddwy res o gerrig sylfaen â cherrig afreolaidd eu siâp. Os ydych yn ailgodi wal, gofalwch fod y sylfeini gwreiddiol yn gadarn a chael rhai yn eu lle os ydynt yn simsanu, yn camu llinell y wal, ar dro neu'n malurio.
- **Y Goleddfiad** – y goleddfiad am i mewn o waelod y wal i'w brig. Dylai dwy ochr y wal dapro'n gymesur i'r top. Dylai maint ongl y goleddfiad ddibynnu ar y math o stoc fydd yn pori nesaf at wal. Ar gyfer wal 1.3m o uchder, dylai'r gwaelod fod 70cm i 90cm o led gan dapro i 30cm i 40cm o led o dan y garreg gopa, gan ddibynnu ar faint y cerrig a'r math o gerrig a ddefnyddir yn yr ardal.

- **Wynebfeini** – dylid codi'r wal ag iddi ddau wyneb sy'n wastad â'i gilydd ac yn dilyn y goleddfiad. Gosodwch y wynebfeini gan gadw'r rheolau canlynol mewn cof:
  - rhowch y cerrig mwyaf yn y gwaelod, a'r lleiaf ar y top
  - adeiladwch y wal fesul haen (oni bai ei bod yn draddodiad peidio â gwneud)
  - gosodwch bob carreg fel bod ei hochr hiraf yn mynd i mewn i'r wal
  - dylai cerrig yr haenen nesaf orwedd dros bob bwlch rhwng cerrig yn yr haenen oddi tani. Ni ddylech allu gweld unrhyw raniadau fertigol
  - peidiwch â gosod y cerrig eu hunain ar oleddf i mewn am y wal
  - rhaid i wyneb y wal fod yn llyfn heb gerrig yn ymwthio allan, heblaw am y 'cerrig pwyth
  - rhaid gosod y cerrig ar eu hyd ar hyd llinell y wal hyd yn oed os ydy'r wal ar lethr
  - Rhaid gosod lletemau (cerrig bychain i gloi cerrig mwy) ar du fewn y wal, nid y tu allan.
- **Canol y Wal** – defnyddio cerrig bychain i lenwi a phacio'r canol. Rhaid llenwi'r bwlch yng nghanol y wal rhwng wynebfeini dwy ochr y wal â cherrig llai, afreolaidd. Peidiwch â defnyddio pridd na deunydd mân arall gan y caiff ei olchi i ffwrdd. Dylech osod y llenwad wrth i bob haen o gerrig adeiladu gael ei osod.
- **'Cerrig pwyth'** – cerrig mawr trwm sy'n cael eu gosod i gydio ddwy ochr y wal yn ei gilydd. Yn ddelfrydol, dylech osod dwy haenen o gerrig pwyth, 45cm a 90cm uwchlaw'r ddaear gyda 100cm rhwng y naill garreg bwyth a'r nesaf ar wal 1.3m o uchder. Os nad oes gennych ddigon o gerrig addas, dylech osod un rhes o 'gerrig pwyth' rhwng 60cm a 75cm uwchlaw'r ddaear. Rhaid i'r 'cerrig pwyth' fynd o leiaf yr holl ffordd drwy led y wal gan efallai ymestyn rai centimetrau weithiau allan o'r wal.
- **Cerrig copa** – cerrig ar frig y wal i selio pen y wal a phwyso arno. Dylai brig y wal gael ei adeiladu i'r un uchder a bydd y canol wedi'i lenwi. Dylai'r cerrig copa fod o'r un lled â'r wal a dylent fod 20cm i 30cm o uchder. Fel arfer dylech docio cerrig sy'n lletach na'r wal, ond os nad oes stoc pori ar un ochr y wal, mae'n iawn i'r garreg gopa ymwthio allan hyd at 5cm ar yr ochr honno. Gosodwch y cerrig copa'n ofalus fel eu bod yn dynn ac yn clymu wrth ei gilydd ac yn pwyso ar bob wynebfaen uchaf.
- **Pen y wal** – pen fertigol y wal. Mae iddynt haenau am yn ail o 'beniadau' (cerrig pwyth sy'n clymu dwy ochr y wal ynghyd) a cherrig ymestyn (cerrig hir sy'n cael eu gosod gydag ochr y wal). Rhaid i'r garreg gopa ar y pen fod yn garreg mawr ac yn ddigon trwm i gynnal gweddill y copa. Gofalwch nad oes cerrig yn ymwthio allan o ben y wal y gall stoc rwbio yn eu herbyn.
- **Codi wal gynnal** – Codir waliau cynnal ar wyneb llethr i rwystro pridd rhag llithro i lawr y rhiw. Dylech godi waliau cynnal yr un ffordd â waliau digynhaliaeth ag iddynt ddau wyneb. Nid oes angen i'r wyneb mewnol fod yn llyfn fel ag sydd ei angen ar wal ddigynhaliaeth. Dylai'r wyneb mewnol fod yn fertigol, gyda'r oleddf fel arfer ar yr wyneb allanol. Lle bo angen, gofalwch fod yna ddraenio digonol.
- **Morter** – Os ydych yn codi'ch wal wrth heol brysur, yn enwedig os oes lorïau trwm yn teithio arni, efallai y bydd angen ichi ddefnyddio morter i rwystro'r cryndod rhag difrodi'r wal. Bryd hynny, rhowch forter yng nghanol y wal ac ar y cerrig copa, gan adael i'r gweddill ymddangos fel wal sych draddodiadol. Os bydd y cerrig copa yn debygol o ddisgyn am fod pobl yn dringo dros y wal (e.e. wrth safle picnic), rhowch forter ar y cerrig copa. Dylech wneud hyn am o leiaf blwyddyn ar ôl adeiladu'r wal er mwyn iddi gael amser i setlo.
- **Weiren dop** – Gallwch osod pyst pren i mewn i'r wal i gynnal llinell o weiren bigog ar hyd y wal i rwystro stoc rhag dringo ar y wal a chreu difrod.
- Dylai'r wal orffenedig fod yn gadarn gyda dau wynebfaen tynn. O'i tharo, ni dyllai'r wal na'r canol symud.

